CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd am 7pm ar 7 Rhagfyr 2020 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd)(Cymru 2020.*

---

Presennol: Cadeirydd: Cyng Steve Kings; Cyngr Hywel Davies, Iwan Davies, Ken Symmons, Claire Proven

CS Cyng Clive Davies

Clerc

Ms G Bowen ar ran Wales and West Housing

Aelodau'r cyhoedd yn bresennol a'r wasg: 0

Sesiwn agored i'r cyhoedd gael codi unrhyw faterion sy'n berthnasol i gofnodion y Gymuned 15 munud ar ei hiraf.

Croesawyd Ms Glenda Bowen, Rheolwr Tai Wales and West Housing, i'r cyfarfod. Esboniodd y meini prawf cyswllt lleol pan fydd tenantiaeth yn cael ei rhoi. Dywedodd y byddai W&WH yn croesawu cael gwybod am unrhyw bobl leol oedd ag angen tai. Byddai'n darparu dolenni i wybodaeth am ymgeisio am dai i'r Clerc ei gosod ar dudalen Facebook y pentref. Nodwyd, pan nad oedd ymgeiswyr lleol yn dod ymlaen, y byddai tai'n cael eu gosod yn ôl y drefn raeadru. Diolchwyd i Ms Bowen am ei hamser ac yna gadawodd y cyfarfod.

*Ymunodd y Cyng Mrs N Redmond â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth uchod.*

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Mrs A Edwards. Gyda siom nodwyd ymddiswyddiad y Cyng Mrs L Holder.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Roedd y Cynghorwyr wedi cael y ffurflenni hysbysu priodol, a gallai'r Clerc eu derbyn fel e-bost heb lofnod. Datgelodd Mrs N Redmond ddiddordeb mewn unrhyw faterion yn ymwneud â Neuadd y Cwrwgl.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno

**4. Cadarnhau Cofnodion 02.11.2020**
Cytunwyd i gywiro Allan Street yn Adam Street ar dudalen 382 ac wedyn cynigiodd y Cyng I Davies y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng C Proven, a chytunwyd.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

A200955 - Robert Davies Motors Ltd, Llechryd, SA43 2NR. Codi sied storio ar gyfer cychod, carafanau a chartrefi symudol.
Cefnogodd Cyngor Cymdeithas Llangoedmor y cais.

Diweddariad llifogydd a TAN 15 - 8 Ionawr.
Esboniwyd pwysigrwydd yr ymgynghoriad, gan y byddai'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i lywio'r cynllunio ar gyfer llifogydd. Roedd angen gwybodaeth leol i sicrhau cynnwys pob ardal y gwyddys ei bod yn agored i lifogydd.
GWEITHREDU: Gohirio tan gyfarfod mis Ionawr.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**

Dywedodd y CS Clive Davies, yn ystod y stormydd yn ddiweddar, fod problemau wedi digwydd gyda cwlferti'n cael eu rhwystro, a byddai CSC yn delio â nhw. Gobeithiai y byddai ymgynghoriad SUSTRANS ar Deithio Llesol yn yr ardal leol yn cael ymateb sylweddol gan drigolion. Roedd ysgolion lleol wedi ailagor ar ôl bod ynghau wedi cynnydd sylweddol mewn achosion COVID yn lleol, a sylwodd y dylai'r rhaglen brechu rhag COVID ddechrau yn yr ardal leol ym mis Ionawr 2021 Byddai canolfannau brechu fod ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 9am i 9pm.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

**7.1 Taliadau Misol**

*7.1.1 Cymeradwyo cyfrifon sy'n daladwy*

| | Talai | Am | banc | |
|---|---|---|---|---|
| 30.10.11 | LAS | DU | 42.00 | |
| 3.11.20 | SLCC | Trust Webinar | 72.00 | Talwyd |
| 7.12.20 | HARC | | 78.90 | |
| | S E Davies | Cyflog | 304.79 | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y Cartref | 25.00 | |
| | SSE Swalec | SSE | 23.41 | |
| | Cardibanners | Arwyddion bloc toiledau | 40.00 | |
| | John Morris | Cynnal a Chadw'r Tir | 825.60 | |
| | Arjay Factors | Sachau | 19.42 | |
| | Danfo | Glanhau bloc | 252.00 | |

Cynigiwyd gan y Cyng N Redmond, eiliwyd gan y Cyng I Davies, cytunwyd.

Cytunwyd i brynu ffens diogelwch ar gyfer y Cyngor/Elusennau – i'w storio yng nghwpwrdd y bloc toiledau.
GWEITHREDU: Trefnu prynu

*7.1.2 2021-22 Cyllideb*
I'w thrafod ar ôl cymeradwyo'r gyllideb ac ym mis Ionawr 2021.
Amlinellodd y Clerc y gyllideb ac awgrymu y byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu am waith trwsio sylweddol ar furddun Eglwys y Groes Sanctaidd gan ei fod yn un o'r prydleseion. Nes y ceid gwybod a fyddai yswirwyr y Cyngor yn talu'r costau sylweddol i gyd neu rai ohonyn nhw, roedd yn anodd iawn rhoi cyngor am y gyllideb. Roedd y Cyngor hefyd wedi cael ffigurau cychwynnol am adnewyddu'r ffrâm dringo yn y cae chwarae (gyda chytundeb Ymddiriedolwr yr Elusen). Fodd bynnag, gellid oedi hyn neu rannu'r costau dros ddwy neu dair blynedd.
Dywedodd y Clerc mai un dyfynbris yn unig oedd wedi cyrraedd, oddi wrth y contractiwr presennol, ar gyfer cynnal a chadw'r tir. Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r contractiwr GAN: Y Clerc

*7.1.3 Achosion Covid yn y gymuned*
Nodwyd bod nifer yr achosion yn y gymuned yn cynyddu, a diolchwyd i wirfoddolwyr am gynorthwyo trigolion lleol.

*7.1.4 Bancio ar-lein – diweddariad*
Roedd dau lofnodwr wedi gwneud cais am fancio ar-lein. Gofynnodd llofnodwr arall am i'r ddolen gael ei hanfon eto.

GWEITHREDU: Anfon y ddolen GAN: Y Clerc

*7.1.5 Cymeradwyo'r asesiad risg ar gyfer Adeilad y Mileniwm*
Derbyniwyd yr asesiad risg fel y cafodd ei gyflwyno.

**7.2 Adroddiad ar hyfforddiant y Clerc – webinar hyfforddiant SLCC Ymddiriedolaethau Elusennol**
Roedd yn dda gan y Clerc ddweud bod y Cyngor yn dilyn y drefn gywir o ran bod yn ymddiriedolwr y cae chwarae. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig i'r Cynghorwyr ystyried materion y Cyngor a materion elusennol o wahanol safbwyntiau o ran dyletswydd ac atebolrwydd.

**8. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
***8.1 Croes-y-Llan***
Byddai pryderon yn cael eu mynegi yn y cyfarfod PACT ar 10 Rhagfyr am 6.30pm.

***8.2 Llwybrau Troed / Llwybr i Aberteifi***
*8.2.1 Diweddariad am y cynnydd gyda map cerdded*
Prosiect parhaus, dim adroddiad ar gael hyd yma.

*8.2.2 Diweddariad am y llwybr i Aberteifi*
Pwysleisiwyd eto ei bod yn bwysig i drigolion ymateb i ymgynghoriad SUSTRANS ar Deithio Llesol.

***8.3 Pont Llechryd***
Dim byd i'w gyflwyno.

**9. Amwynderau**
**9.1 Bloc Toiledau**
Roedd dŵr wedi'i weld yn gollwng yn y gwaith plymio a oedd wedi'i wneud yn ddiweddar a byddem yn cysylltu â'r plwmwr. Roedd y contract glanhau i'w weld yn gweithio'n dda..

***9.2 Man/Cae Chwarae* – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd**

9.2.1 Ffin
Cadarnhawyd bod cysylltiad wedi bod â'r cyfreithiwr ond nad oedd dim ymateb wedi dod hyd yma.

*9.2.2 Man chwarae*
Diweddariad am y cynnydd – materion i'w trafod
*9.2.4 Gwaith trwsio heb ei wneud ar ôl archwiliad ROSPA*
Angorau ar gyfer pystion y gôl - Cyng H Davies
Trwsio ffin y maes chwarae – Cyng S Kings
Bin newydd yn y maes chwarae – Cyng S Kings i wneud os yw'n bosibl
Gât i gau ei hunan i'r maes chwarae - Cyng H Davies
Angen tocio'n sylweddol y llwyn yn y cornel sydd wedi gordyfu a'r clawdd gerllaw
Contractwyr i gael eu gwahodd i ymweliad safle yn y flwyddyn newydd
Ail-leoli'r fainc bicnic ar ôl gosod y llwybr concrid eto
Mainc bicnic y plant. Yn cael ei storio. Ei rhoi yn ei lle ar ôl gosod y llwybr concrid

*9.2.3 Gwahodd dyfynbrisiau a chadarnhau'r ffordd ymlaen i drwsio / adnewyddu'r man concrid*
Nid oedd dim dyfynbrisiau pellach wedi dod ar gyfer y gwaith. Ni dderbyniwyd yr un dyfynbris a oedd ar gael.
GWEITHREDU: Gwahodd dyfynbrisiau pellach GAN: Y Clerc

*9.2.4 Gwahodd dyfynbrisiau i adnewyddu'r cyfarpar chwarae*
Nodwyd bod y dyfynbrisiau wedi eu gwahodd er mwyn gallu cynnwys swm yn y gyllideb.

**9.3 Parc Ceir – Neuadd y Cwrwgl**
Cadarnhawyd bod cysylltiad wedi bod â'r cyfreithiwr ond nad oedd dim ymateb wedi dod hyd yma.

***9.4 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd***
*Cytuno ar ffordd ymlaen yn dilyn yr ymateb yswiriant ac ymchwil gan y Clerc*
Eglurwyd bod y gwaith wedi'i wneud yn y 1990au, nid y 70au.

Cytunwyd i ymateb i'r yswirwyr drwy roi hyn o fanylion a oedd ar gael am y gwaith, ac na allai'r Cyngor, gan nad oedd yn arbenigwr ar arolygon adeiladu, roi rheswm dros y problemau sy'n codi. Nodwyd y byddai arolwg adeiladwaith llawn gan gwmni lleol sydd â phrofiad helaeth gydag adeiladau eglwysig yn costio tua 600 punt.

Er mwyn symud pethau ymlaen, dirprwywyd awdurdod i'r Clerc, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i barhau i drafod gyda'r cwmni yswiriant ac i gomisiynu arolwg adeiladwaith os byddai angen. Nid oedd yr awdurdod wedi'i ddirprwyo yn cynnwys cytuno ar dreuliau am unrhyw waith neu gostau cyfreithiol y tu hwnt i arolwg.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r yswirwyr GAN: Y Clerc

**10. Digwyddiadau**
*10.1 Goleuadau'r Nadolig*
Nodwyd bod y goleuadau wedi'u gosod gan Mr M Penny ar sail dyfynbris a gymeradwywyd dan bwerau wedi'u dirprwyo.

**11. Adroddiadau am gyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau.
*11.1 Cyng I Davies –Llywodraethwyr yr Ysgol*
Dywedodd y Cyng I Davies fod cyfarfod y Llywodraethwyr wedi'i ohirio ac nad oedd adroddiad i'w gyflwyno.

*11.2 Cyng H Davies – Neuadd y Cwrwgl*
Dywedwyd bod y Neuadd yn cael anhawster i ddod o hyd i gontractwyr i weithio ar y to. Cwmni drama lleol yn unig oedd yn defnyddio'r Neuadd ar hyn o bryd.

**12. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori na chynhwyswyd dan unrhyw bennawd arall)**
*Gohebiaeth a nodwyd:*
Help i lunio gwasanaethau fferyllfa yn y dyfodol

Arolwg Parthau Diogel Canol Trefi Aberystwyth, Aberaeron, Cei Newydd ac Aberteifi
Cau 21 Rhagfyr 2020

Ymgynghori ar gerdded a beicio
https://www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-parking/active-travel/

**13. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**
Llongyfarchwyd y Cyng S Kings ar enedigaeth ei wyres.

Gofynnodd y Cyng K Symmons a allai'r Cyngor helpu talu am y baneri Nadolig. Cytunwyd, gan fod y Cyngor eisoes wedi rhoi arian i helpu'r Parti gyda'r argraffu, fod hynny'n cynnwys cyfraniad at y baneri.

Byddai adroddiad am ymddygiad gwael gan ieuenctid y pentref yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod PACT.

Dymunodd y Cadeirydd y Nadolig gorau posibl i bawb.

**14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 4.1.21**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.50pm.*

*Llofnod y Cadeirydd: ............................................................... Dyddiedig: 04.01.2021*